**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA(P) JH/1070/16

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

6 Mawrth 2016

Annwyl Jocelyn

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2017 (Chwefror 2016)**

Mae'n bleser gennyf ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2016-17 (Chwefror 2016).

Atodaf nodyn yn Atodiad A, sy'n ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Yn gywir,
Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17**

## Gwariant Ataliol

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn dal yn awyddus i weld penderfyniad cytûn o ran diffiniad cadarn a chyson o wario ataliol ac yn argymell bod gwybodaeth yn cael ei chynnwys yng nghyllidebau Cymru er mwyn dangos cyfran cyllideb Cymru sy'n cael ei chyfeirio at wario ataliol a sut mae hyn yn cynyddu dros gyfnod o amser. (Tudalen 24)**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar bwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar, yn enwedig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol parhaus. I'r perwyl hwn, rydym wedi ceisio egluro'n well bob tro sut mae ein cynlluniau gwariant yn cefnogi ymyriadau ataliol.

Fel y dywedodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wrth roi tystiolaeth yn ystod y broses craffu, rydym yn gweithio'n agos â'r Trydydd Sector i ddatblygu diffiniad cytunedig o wariant ataliol. Mae sefydlu Gweithgor i brofi'r fethodoleg a ddatblygwyd gan y Tasglu Gweithredu Cynnar yn rhan o'r dull hwn o weithio. Wrth baratoi ar gyfer y Gyllideb hon, rydym wedi defnyddio fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lunio ein cynigion. Rhaid i ni barhau i adeiladu ar hyn, gan ddefnyddio canfyddiadau'r Gweithgor i helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar wariant.

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er mwyn nodi ac amgyffred amrywiaethau yn y modd y cyflenwir gwasanaethau, er mwyn annog a hybu arfer newydd wrth iddo ddatblygu.**

Mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio bod agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau i bawb yng Nghymru, gan roi pwys ar bwysigrwydd newid integredig ar raddfa fawr fel bod modd i ni weithio a gweithredu fel un gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn defnyddio ystod o ddulliau ategol i hyrwyddo a rhannu arfer da ynghylch sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n wahanol, a lle mae cyfle i wneud mwy.

Mae Panel Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi bod yn ystyried sut gellir rhannu arferion da a'u gweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r Panel yn edrych ar sut mae datblygu capasiti a gallu ar draws gwasanaethau cyhoeddus o ran defnyddio methodoleg hap-dreial wedi'i rheoli, er mwyn ei defnyddio mewn modd sy'n nodi'r ymyriadau mwyaf effeithiol.

Mae cynllun Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed (ESVG) ar waith i ddatblygu ffordd effeithiol o ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus, ac mae hyn yn dwyn ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i ystyried rhai o'r materion mwyaf heriol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Caiff y Grŵp ei gadeirio gan Jeff Farrar, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, ac mae eu gwaith ar drais domestig, er enghraifft, yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Rydym yn gweithio'n agos gyda GIG Cymru hefyd i fynd i'r afael ag amrywiaethau yn y gofal iechyd a ddarperir drwy ddulliau gofal iechyd darbodus. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru 'Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', sy'n gosod blaenoriaethau i weithredu arnynt dros y 12 mis nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu'r ymgyrch "Dewis Doeth" ar gyfer Cymru i helpu clinigwyr a'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am brofion, triniaethau a meddyginiaethau ar sail y dystiolaeth orau.

Mae ein penderfyniadau yn y Gyllideb yn cefnogi ystod o raglenni gyda'r bwriad o annog a hyrwyddo arferion newydd. Rydym yn cynyddu'r cyllid i'r Gronfa Gofal Canolraddol i £60m yn 2016-17, a bydd hyn yn galluogi hyd yn oed fwy o gydweithio ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai i wella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig. Yn ystod ei Thaith Gyllideb dros yr haf, gwelodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth drosti'i hun enghreifftiau o'r gwaith da sy'n digwydd ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd mor effeithlon ag sy'n bosibl. Mae'r rhain yn cael sylw yn Adroddiad Taith Cyllideb 2015 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'.

Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn gwneud cyfraniad pwysig hefyd i annog a hyrwyddo arferion newydd a fydd yn gallu sicrhau arbedion cost ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Ar 23 Chwefror, cyhoeddais enwau'r prosiectau diweddaraf i gael cymorth o'r £20 miliwn sydd ar gael i'r Gronfa yn 2016-2017. Ers cyflwyno'r Gronfa, mae dros £140 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn 154 o brosiectau gan ddwyn budd i bob rhan o'r sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i fonitro a gwerthuso pob prosiect ac annog rhannu'r arferion da.

## Cyllid Iechyd

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymroi i ddull gweladwy gefnogol o weithredu, lle mae angen trawsffurfio'r gwasanaeth a lle mae hyn yn cael ei geisio gan y GIG, er mwyn sicrhau bod deialog glir ac effeithiol â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol rheng flaen, a chyfraniadau ganddynt er mwyn deall a dylanwadu ar unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. (Tudalen 32)**

Er mwyn i gynllunio gwasanaethau fod yn weithgaredd craidd, rhaid i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru sicrhau eu bod yn cynnal lefel uchel o ymgysylltiad gyda'u cymunedau lleol a'u staff drwy'r amser. Os yw byrddau ac ymddiriedolaethau am gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, mae'n hanfodol eu bod yn glir am eu cynllun ar gyfer y sefydliad, sut y caiff hwn ei gyflawni, pa adnoddau sydd ar gael a sut y bydd y gwaith cyflawni'n cael ei reoli. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses hon yn llwyr drwy Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a'r gwaith monitro cadarn o'r dulliau a ddefnyddir gan fyrddau ac ymddiriedolaethau i sicrhau ymgysylltiad effeithiol.

Mae atgyfnerthu partneriaethau a chydweithio sydd eisoes yn digwydd yn bwysig hefyd i wella gwasanaethau. Mae rhaglenni gwelliannau penodol gan Lywodraeth Cymru, fel Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Y Canolbarth, wedi'u sefydlu gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd dros y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir. Bydd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Y Canolbarth yn datblygu atebion arloesol ar gyfer darparu gofal a bydd hyn yn sicrhau cyfleoedd dysgu pellach ar gyfer ardaloedd gwledig eraill.

Mae amrywiaeth o brosiectau trawsffurfio gwasanaethau ar waith yn y GIG gan gynnwys:

- Darparu canolfannau adnoddau gofal sylfaenol modern yn Llangollen, Y Fflint a Blaenau Ffestiniog.
- Adeiladu tair uned mamolaeth newydd bwrpasol dan arweiniad bydwragedd yng ngorllewin Cymru. Mae gwasanaethau arbenigol i fabanod newydd-anedig, sydd yn bodloni safonau cenedlaethol erbyn hyn, wedi'u canoli yng Nghaerfyrddin erbyn hyn.
- Datblygu blaen tŷ newydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli er mwyn gweithredu model newydd o wasanaethau gofal heb eu trefnu yn yr ysbyty. Gobeithir cwblhau'r gwaith ym mis Mai 2016.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi agor canolfan feddygol acíwt newydd yn ddiweddar yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg i wella ansawdd y gofal a ddarperir yn lleol a helpu i leihau'r pwysau ar ei adran Damweiniau ac Achosion Brys..
- Newidiadau i wasanaethau strôc ym myrddau iechyd Aneurin Bevan a Chwm Taf a fydd yn galluogi mwy o gleifion i allu mynd adref yn gynt a chael cefnogaeth wrth iddynt wella yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos ein bod yn buddsoddi cryn dipyn ar draws Cymru i drawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau, yn enwedig wrth ddarparu mwy o wasanaethau sy'n nes at gartrefi cleifion.

**<u>Cyllid Llywodraeth Leol</u>**

**Argymhelliad 4: Os bydd y duedd o wario ar wasanaethau iechyd yn parhau i fod yn gyfran gynyddol o wariant Llywodraeth Cymru trwy gydol gweddill y cyfnod Adolygiad o Wariant, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd llawer o wasanaethau anstatudol yn dod yn anghynaliadwy oni bai bod dulliau cyflenwi eraill yn cael eu rhoi ar waith ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ymgymryd â gwaith i gyfyngu ar effaith toriadau yn y meysydd hyn. (Tudalen 37)**

Mae datblygu modelau eraill cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd yn bwysig ar gyfer gwasanaethau anstatudol a gwasanaethau statudol fel ei gilydd. Rydym yn buddsoddi yn y ddau, er mwyn sicrhau bod yr ystod fwyaf effeithiol ac ategol o wasanaethau ar gael ac oherwydd y bydd yn helpu pob un ohonom i baratoi ar gyfer cyfnod o ragor o gyfyngiadau ariannol.

Ym mis Mawrth 2015, lansiodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru: canllawiau arferion gorau' sy'n ategu Pecyn cymorth penodol i sector sy'n bodoli'n barod. Mae'r Canllawiau a'r Pecyn Cymorth yn sefydlu 'rheolau sylfaenol' i reoli trosglwyddiadau unigol o Awdurdodau Lleol i sefydliadau cymunedol, trydydd sector a mentrau cymdeithasol; ac mae'n hyrwyddo dull partneriaeth. Mae hyn yn cefnogi ein huchelgais i rymuso pobl i ddiogelu a chynnal y gwasanaethau sy'n bwysig iddynt, a helpu hefyd i feithrin proses gwneud penderfyniadau ar lefel gymunedol.

Hefyd, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori Allanol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol i lywio'r gwaith o ddatblygu rhagor o ganllawiau a pholisïau yn y maes hwn. Yn ystod ei gyfarfod diwethaf ym mis Ionawr, bu'r Grŵp yn trafod sut cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf dros 80 o geisiadau am Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae hyn yn dangos y galw a'r diddordeb sydd mewn diogelu asedau a gwasanaethau o werth i gymunedau ledled Cymru. Ymwelodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth â nifer o safleoedd Trosglwyddo Asedau Cymunedol ledled Cymru yn ystod ei Thaith Gyllideb yn 2015 gan weld drosti'i hun y cynnydd rydym yn ei wneud yn y maes hwn.

Yn ein Cyllideb ar gyfer 2016-17, rydym wedi manteisio ar y cyfle hefyd i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i ddefnyddio eu hadnoddau i ddarparu gwasanaethau statudol ac anstatudol, gan drosglwyddo £30 miliwn o gyllid Grant Cytundeb Canlyniadau i'r Grant Cynnal Refeniw. Hefyd, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgynghori'n ddiweddar ar Gynllun Gweithredu ar gyfer Modelau Cyflawni Eraill mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn ystyried a oes angen newidiadau i'r Cynllun Gweithredu.

## Fformiwla Setliad Llywodraeth Leol

**Argymhelliad 5: Barn y Pwyllgor yw bod setliad eleni'n cael effaith andwyol ar awdurdodau gwledig fel Powys ac mae'n argymell bod "terfyn isaf" yn cael ei gyflwyno yn y Setliad Llywodraeth Leol terfynol i gyfyngu ar y toriadau mwyaf mewn awdurdodau unigol er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaeth. (Tudalen 40)**

**Argymhelliad 6: Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y bydd y setliad llywodraeth leol bob amser yn golygu bod rhai awdurdodau'n cael setliad llai ffafriol nag eraill, mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o'r fformiwla gyllidebu a'r data a ddefnyddir ar gyfer y setliad llywodraeth leol. (Tudalen 41)**

Mae'r Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth yn darparu ar gyfer dyrannu £2.5m unwaith yn unig yn ychwanegol at Setliad Llywodraeth Leol 2016-17. Bydd y cyllid ychwanegol yn lliniaru effaith y gostyngiadau ar yr awdurdodau hynny sy'n cael y gostyngiadau mwyaf flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn capio'r gostyngiadau i'r awdurdodau hyn ar 3 y cant.

Mae setliad y llywodraeth leol yn cael ei ddosbarthu yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r trefniadau partneriaeth gyda Llywodraeth Leol, gan gynnwys yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Is-grŵp Cyllid, yn sicrhau bod Llywodraeth Leol yn cytuno â'r fformiwla. Mae'r fformiwla yn dal i gael ei adolygu a'i ddatblygu er mwyn sicrhau bod y fformiwla a'r data sy'n sail iddo yn dal i fod yn addas i'r diben.

## Addysg Uwch

**Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid edrych eto ar y dyraniadau i addysg uwch yng ngoleuni'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Cyllid a'r pryderon a leisiwyd gan y pwyllgorau polisi perthnasol (Tudalen 48)**

Gan adeiladu ar y pryderon a fynegwyd yn ystod y broses craffu, mae'r Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth yn adlewyrchu'r addasiad o £21.1m o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i Lywodraeth Cymru yng nghyswllt trosglwyddo grant ffioedd dysgu. Roedd hyn yn unol â sylwadau a wnaethpwyd gan y sector.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth hefyd ddyraniad ychwanegol o £10m o'r Cronfeydd Wrth Gefn yn 2015-16, a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2016-17, a'i ddyrannu i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Gwnaethpwyd y dyraniad ychwanegol hwn ar ôl ystyried y dystiolaeth a roddwyd gan y sector yn ystod y broses craffu.

Mae'r pecyn yn darparu £5m i gefnogi darpariaeth ran-amser a £5m i barhau i ddatblygu capasiti a rhagoriaeth Cymru, gan gynnwys ymchwil wyddonol o’r radd flaenaf, cefnogi ein blaenoriaethau trawsbynciol ar gyfer twf a swyddi a chyrhaeddiad addysgol.

## Trechu Tlodi

**Argymhelliad 8: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried manteision dulliau o leihau tlodi sy’n canolbwyntio ar ardaloedd penodol, ac yn hyrwyddo dull ymgysylltiedig o leihau tlodi, trwy lunio polisïau ar draws pob adran. (Tudalen 54)**

Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru.

Mae’r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fynd i’r afael â thlodi yn cydnabod manteision defnyddio cymysgedd o raglenni cyffredinol a rhaglenni mewn lleoedd penodol, ac mae Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi wedi cymeradwyo’r dull hwn o weithio. Mae’n amlwg bod y rhan fwyaf o’r rhaglenni sy’n ceisio helpu i drechu tlodi ar gael ar draws y wlad, yn seiliedig ar angen. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf, Grant Amddifadedd Disgyblion a Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Mae'r polisïau hyn yn ffurfio rhan o ddull trawslywodraethol Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â thlodi. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys ein nod i ddatblygu economi gryfach drwy greu swyddi a thwf, ac mae hyn yn ganolog i’n hymdrechion i sicrhau mwy o ffyniant i bobl Cymru. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi creu neu ddiogelu 150,000 o swyddi yng Nghymru, ac mae lefel cyflogaeth yng Nghymru yn agos at fod yr uchaf erioed.

Rydym yn sylweddoli bod gwella cyflogadwyedd pobl, gwella sgiliau a chefnogi pobl i gael gwaith yn chwarae rôl sylfaenol yn y broses o ddatblygu’r agenda trechu tlodi. Sicrhau cefnogaeth gynaliadwy yw’r llwybr gorau o dlodi o hyd, ac rydym yn gweithio ar draws sawl maes polisi gwahanol i gefnogi rhieni i gael y profiad, y sgiliau a’r hyder i’w galluogi i sicrhau cyflogaeth. Er enghraifft, o 30 Tachwedd 2015 ymlaen, mae’r Rhaglen Esgyn wedi darparu dros 2,700 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, a chefnogwyd 520 o bobl i gael gwaith.

Yn yr un modd, bydd y rhaglen Cymunedau am Waith, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn buddsoddi £41 miliwn i gefnogi’r rheini sydd bellaf o’r farchnad lafur yn ôl i waith. Mae’r gwaith o gyflwyno’r rhaglen wedi cychwyn ac mae ymgynghorwyr Canolfan Byd Gwaith wedi ymuno â holl glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Ar ddechrau’r broses o sefydlu'r rhaglen newydd, rydym eisoes wedi ymgysylltu â thros 1,600 o bobl ac mae dros 100 o’r rheini wedi cael cymorth yn barod i gael gwaith.

**Argymhelliad 9: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y warchodaeth sy’n cael ei chynnig ar gyfer cyllideb Cefnogi Pobl yn arwain at amddiffyn darpariaeth gwasanaethau rheng flaen. (Tudalen 54)**

Mae’r Gyllideb ar gyfer 2016-17 yn adlewyrchu sut rydym wedi gweithio i liniaru effaith toriadau yn y gyllideb ar ein gwasanaethau cyhoeddus craidd, a'r bobl sy’n dibynnu ar y gwasanaethau hynny.

Mae ein penderfyniad i ddiogelu cyllideb Cefnogi Pobl y flwyddyn nesaf ar yr un lefel ag yr oedd yn 2015-16 wedi cael croeso. Rydym yn sylweddoli bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn gallu darparu gwasanaethau fwyaf effeithiol fel rhan o gyfuniad o raglenni sy’n cefnogi gwasanaethau prif ffrwd. Mae cyllideb Cefnogi Pobl yn cael ei dyrannu i Awdurdodau Lleol gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i adnabod anghenion a blaenoriaethau lleol a gwneud penderfyniadau cyllido yn eu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio i sicrhau comisiynu ar y cyd rhwng y rhaglen Cefnogi Pobl a’r rhaglen Diogelwch Cymunedol.

O ran yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi gwasanaethau rheng flaen ar gyfer cam-drin domestig, mae Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig Llywodraeth Cymru wedi cynyddu i £4.5m yn 2016-17 o’i gymharu â £4.1m yn 2015-16. Cytunwyd ar y cynnydd hwn i gefnogi’r gwaith o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a defnyddir y gyllideb i ddarparu cymorth i sefydliadau sy’n rhoi cymorth uniongyrchol i ddioddefwyr y mathau hyn o gamdriniaeth waeth beth yw eu hoed, eu rhyw a/neu eu hethnigrwydd.

## Cyflwyno’r Gyllideb

**Argymhelliad 10: Mae’r Pwyllgor yn credu bod cyflwyno’r cymariaethau blwyddyn i flwyddyn mewn ffordd wahanol wedi lleihau tryloywder, ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â’r Pwyllgor Cyllid pan fydd newidiadau sylweddol i’r ffordd mae’r gyllideb yn cael ei chyflwyno, fel y gwnaed yn y gyllideb ddrafft hon. (Tudalen 63)**

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor i’r camau rydym wedi'u cymryd yn y blynyddoedd diweddar i wella tryloywder ein cynigion cyllideb. Rydym wedi gweithio’n agos â'r Pwyllgor Cyllid i fireinio ansawdd a ffordd o gyflwyno gwybodaeth y gyllideb ac i helpu'r Cynulliad wrth iddynt graffu ar ein cynigion. Yn hyn o beth, mae defnyddio cymariaethau blwyddyn i flwyddyn yn tarddu’n uniongyrchol o argymhellion penodol a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn flaenorol.

Mae'r gwaith wedi cydnabod cymhlethdod y wybodaeth rydym yn ei chyflwyno ar amrywiol adegau yn y cylch cyllideb a’r amrywiol ddibenion y defnyddir y wybodaeth gan randdeiliaid. Mae’r dulliau rydym wedi'u defnyddio ar ddechrau'r cyfnod hwn o Adolygiad o Wariant i dynnu’r dyraniadau nad ydynt yn ailddigwydd o’r cynlluniau a gyhoeddwyd fwyaf diweddar er mwyn cael y ffigur isaf, yn gyson â'r modd y cyflwynwyd y gyllideb gennym ar ôl Adolygiad o Wariant 2010. Wrth gyflwyno’r wybodaeth hon, rydym wedi darparu, yn Atodiad C naratif y Gyllideb, gysoniad llawn rhwng y gyllideb a gyhoeddwyd ddiwethaf a'r ffigurau isaf.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i edrych am ffyrdd o wella’r modd y cyflwynir gwybodaeth y Gyllideb, a byddwn yn rhoi mwy o ystyriaeth i’r meysydd y tynnwyd sylw atynt yn ystod y broses craffu yng nghyd-destun Cyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth am y rhagolygon ar gyfer ardrethi annomestig, a threthi datganoledig yn y dyfodol, yn cael sylw gan y pwyllgor cyfatebol yn y Pumed Cynulliad. (Tudalen 66)**

Nid mater i Lywodraeth Cymru yw hyn.